

Bwletin Awdurdod S4C - Chwefror 2002

Mae'r isod yn crynhoi'r prif bwyntiau a godwyd yn ystod trafodaethau Awdurdod S4C yn ystod ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2002.

Cydymdeimlad

Cyfeiriwyd at y newyddion trist iawn ynglyn â marwolaeth Dylan Morus, Rheolwr Isdeitlo S4C. Mynegodd yr Aelodau eu tristwch mawr a'u cydymdeimladau dwys â'i briod a'i faban bach dau fis oed.

Aelodaeth yr Awdurdod

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y ffaith bod tymor Janet Lewis-Jones ar yr Awdurdod wedi dod i ben. Er hynny, yr oedd Ms Lewis-Jones wedi derbyn gwahoddiad i ymestyn ei chyfnod dros yr adeg y byddai'r Deddf Gyfathrebu yn cael ei chyhoeddi, er mwyn i'r Awdurdod fedru elwa ar ei harbenigedd yn y maes yma.

Cadeiryddiaeth y Pwyllgor Personél a Chydnabyddiaeth

Atgoffwyd yr Aelodau bod angen penodi olynnydd i Peter Davies (oedd bellach wedi dod i ddiwedd ei gyfnod ar yr Awdurdod) fel cadeirydd ar y Pwyllgor Personél a Chydnabyddiaeth. Roedd y Cadeirydd yn falch o fedru adrodd fod Enid Rowlands wedi derbyn y gwahoddiad i gadeirio'r Pwyllgor.

Elusen S4C

Nodwyd yn ffurfiol bod Cefin Campbell wedi derbyn gwahoddiad i gadeirio Elusen S4C.

Cyfarfod Arbennig yr Awdurdod

Cadarnhawyd y byddai cyfarfod yr Awdurdod ym mis Mawrth yn cychwyn amser cinio ar 26 Mawrth 2002.

Rhaglenni'r Nadolig

Nodwyd bod yna ymateb calonogol iawn wedi'i gael i raglenni'r Nadolig ar lafar ac o ran ffigurau gwyllo. Cytunodd yr Aelodau fod yr arlwy o raglenni dros y Nadolig wedi bod yn dda iawn gyda nifer o uchafbwyntiau fel y rhaglenni ar gyfer plant a'r ffilm *Eldra*; er hynny, mynegwyd siom yn y rhaglen a ddarlledwyd nos Galan.

Yr Amserlen Newydd

Nodwyd bod yr amserlen newydd wedi'i lansio ar 7 Ionawr 2002. Yn anffodus, oherwydd problemau gyda Phanel Mesur newydd BARB a gychwynnodd ar ddechrau'r flwyddyn nid oedd ffigurau gwyllo dibynnol ar gael hyd yn hyn. Er hynny, roedd yr ymateb roedd S4C yn ei gael yn ffafriol. Roedd pobl yn ymateb i raglenni unigol ac yn gyffredinol yr oedd yna deimlad fod S4C yn cynnig rhywbeth newydd a ffres. Mynegodd Aelodau'r Awdurdod eu bod nhw wedi'u calonogi gyda'r rhaglenni yn yr amserlen newydd.

Pwyllgor Diwylliant a Iaith Gymraeg y Cynulliad Cenedlaethol

[Datganodd yr Aelod, Nic Parry, ddiddordeb yn y mater hwn – sef ei fod yn aelod o Gymuned – ond fe'i gwahoddwyd i ymuno yn y drafodaeth.]

Cyfeiriwyd at ymddangosiad y Prif Weithredwr a'r Ysgrifennydd o flaen y Pwyllgor i roi tystiolaeth ar ei ymchwiliad ar yr iaith Gymraeg. Un mater penodol a wnaeth godi oedd cais gan y Pwyllgor i S4C edrych ar yr ymarferoldeb o ail-leoli ei hun mewn ardal lle'r oedd yr iaith Gymraeg yn rhan o fywyd dyddiol. Atebwyd ar y pryd mai cyfrifoldeb S4C oedd i ddarparu gwasanaeth teledu ac roedd gwneud hynny yn y modd mwyaf gost effeithiol hefyd yn rhan o'i dyletswydd. Wrth nodi hyn gofynnodd y Pwyllgor a fyddai S4C yn fodlon ystyried y goblygiadau ymarferol o symud ei phencadlys. Roedd y Prif Weithredwr wedi cytuno i gyflwyno'r cwestiwn hwn i Awdurdod S4C, a fyddai yn y pendraw yn gorfod penderfynu ar unrhyw gwestiwn o'r fath. Cynhaliodd yr Aelodau drafodaeth cychwynnol ar y mater hwn. Cyn dod at unrhyw gasgliadau cytunwyd y dylid comisiynu swyddogion S4C i baratoi papur yn gosod allan yr ystyriaethau byddai'n rhaid i'r Awdurdod eu pwysu a mesur, cyn penderfynu a ddylid symud ymlaen i edrych i mewn i'r mater hwn mewn manylder.

TACC

Adroddwyd bod cyfarfod adeiladol wedi'i gael gyda TAC ar 11 Ionawr 2002. Gwnaethpwyd nifer o bwyntiau manwl ynglyn â'r broses gomisiynu ddiwethaf ac fe gymerwyd amser i drafod pob un o'r pwyntiau a godwyd. Yn ystod y cyfarfod gwahoddwyd TAC i edrych ar amserlen y broses mewn manylder. Er hynny, pwysleisiwyd hefyd bod S4C yn disgwyl trafod syniadau mor gynnar ag sy'n bosibl ac nid oedd trafodaethau o'r fath wedi'u cyfyngu i'r broses tendro chwe mis. Yn y bôn, roedd y broses nesaf yn dechrau nawr. Yn ogystal, nodwyd nad oedd aelodau TAC yn teimlo eu bod yn cael digon o adborth o S4C. Er hynny, roeddynt yn gwerthfawrogi fod pwysau gwaith ar y comisiynwyr rywfaint i wneud â hyn ac roeddynt felly yn croesawu'r swyddi newydd oedd wedi'u creu yn yr Adran Raglenni. Cytunwyd y dylid trefnu cyfarfod arall ar gyfer aelodau TAC yn hwyrach yn y flwyddyn.

Hyfforddi yn y Diwydiant

Adroddwyd fod y cyfarfod cyntaf o Bwyllgor Llywio Skillset Cymru wedi'i gynnal. Roedd y Prif Weithredwr wedi derbyn gwahoddiad i'w gadeirio ac fel canlyniad fe fyddai hefyd yn aelod o Fwrdd Skillset. Roedd cyfarfod rhwng Skillset, Cyfle, ELWa a'r Prif Weithredwr eisoes wedi'i gynnal i drafod statws 'trailblazer' Skillset ac i geisio sicrhau bod cynlluniau y ddau gorff yn gweithredu llaw yn llaw.

Ymweliad Greg Dyke, BBC

Adroddwyd bod ymweliad Greg Dyke wedi arwain at drafodaeth dda ac agored. Ymhlith y materion a drafodwyd oedd cyfraniad y BBC i'r iaith Gymraeg a dadencryptio.

Blwch Ben Set

Holwyd a fyddai'r blwch ben set yr oedd Pace yn mynd i'w gynnig yn newid sefyllfa y nifer o bobl fyddai'n mynd ar ôl teledu digidol. Atebwyd yr oedd hi'n debygol y byddai digidol yn dod yn fwy deniadol wrth i'r nifer o wasanaethau rhad ac am ddim, a fyddai ar gael trwy'r blwch, gynyddu. Er hynny, roedd y cwestiwn yn dal i aros ynglyn â sefyllfa'r bobl oedd yn byw mewn ardaloedd nad oedd yn gallu derbyn DTT.

Cynllun Gweithredu Digidol

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at gyfarfod y byddai'n mynychu yn Llundain nes ymlaen yn y diwrnod. Roedd yr holl gyrff oedd ymwneud â theledu digidol wedi'u gwahodd; cyrff megis darlledwyr, gweithredwyr plethiadau, ac eraill. Y bwriad oedd y dylid cytuno i benodi 'digital champion' a fyddai'n gyfrifol am gydlynu'r cynlluniau yr oedd y Llywodraeth wedi cyhoeddi'n ddiweddar.

Rhestr Diddordebau Aelodau'r Awdurdod

Cyflwynwyd rhestr ddiddordebau drafft oedd yn adlewyrchu'r hyn yr oedd wedi'u datgan gan Aelodau'r Awdurdod yn Ionawr 2002 a gofynnwyd i'r Aelodau gadarnhau bod y manylion oedd yn ymddangos yn gyflawn ac yn gywir. Cytunwyd, ar yr amod bod yna fân newid yn cael ei wneud, y dylai'r rhestr, yn ôl y drefn arferol, gael ei chyhoeddi ar safle we S4C, gyda chopïau ar gael i'r cyhoedd eu gweld yn swyddfeydd y Sianel yng Nghaerdydd a Chaernarfon.

Cydymffurfiaeth

[Heblaw am yr Ysgrifennydd, ni fu swyddogion S4C yn bresennol yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon.]

(a) *Llwyth o Docs*

Ystyriodd yr Aelodau adroddiad yr Ysgrifennydd a oedd yn ymateb i gais yr Awdurdod yn y cyfarfod diwethaf am sylwadau swyddogion S4C ar bortread y cymeriad Tomos Antigua Tomos yn y gyfres *Llwyth o Docs* yn dilyn mater a gyfeiriwyd gan y Grwp Cydymffurfiaeth. Hefyd, ystyriwyd tâp o glipiau o bortread y cymeriad trwy gydol y gyfres. Y prif gwestiwn i'r Awdurdod i benderfynu arno oedd a oedd o'r farn fod y ffordd y cyflwynwyd y cymeriad yn torri canllawiau S4C.

Cynhaliwyd trafodaeth hir a gofalus ar y mater hwn. Roedd yna sawl wahanol bersbectif ymhlith Aelodau'r Awdurdod ar y mater hwn yn amrywio o un pegwn lle ni welwyd unrhyw beth o le ar y cymeriad i'r pegwn arall lle credwyd fod y canllawiau wedi'u torri. Er hynny, wedi pwyso a mesur yr holl farnau a fynegwyd, daethpwyd at gasgliad.

Cytunwyd: Nid oedd *Llwyth o Docs* wedi torri canllawiau S4C ond yr oedd yna le i'r Awdurdod fynegi peth pryder ynglyn â rhai agweddau o bortread y cymeriad Tomos Antigua Tomos. Dylid rhoi sylw manwl i sensitifrwydd materion o'r fath yn y dyfodol.

(b) **Adroddiad y Grwp Cydymffurfiaeth**

Derbyniwyd adroddiad y Grwp Cydymffurfiaeth yn deillio o'i gyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ionawr 2002. Yn benodol, gofynnwyd i'r Awdurdod ystyried nifer o glipiau o'r gyfres *Y 'Stafell Ddirgel*; cyfres a ddarllledwyd am 8.30 pm. Tra roedd y clipiau yn cynnwys golygfeydd o drais rhywiol a chorfforol ac o ddefnydd o iaith gref nodwyd eu bod yn gwbl angenrheidiol i blot y ddrama ac yn rhan hanfodol o'r cefndir i dystiolaeth y Crynwyr. Nid oedd ychwaith unrhyw le i awgrymu bod y golygfeydd hyn wedi eu gor-ddramateiddio na bod sylw gormodol wedi ei roi i'r trais. Yr hyn oedd yn poeni'r Grwp Cydymffurfiaeth oedd amser darlledu'r gyfres.

Ystyriodd yr Aelodau y golygfeydd a dynnwyd at eu sylw yn ogystal â'r cwestiwn a fyddai rhybudd cyn y darllediad yn datgan fod yna rai golygfeydd yn anaddas i blant iau wedi bod yn dderbyniol.

Cytunwyd: Ni ddylid fod wedi darlledu'r gyfres hon am 8.30 pm gan ei bod yn mynd tu hwnt i'r hyn y byddai'r gwylwyr yn ei ddisgwyl mewn slot gwyllo teuluol. Ni fyddai rhybudd o flaen y rhaglen wedi bod yn dderbyniol chwaith. Dylai'r Adrannau Rhaglenni a Chyflwyno ystyried yn ofalus beth oedd goblygiadau hyn ar gyfer y dyfodol.

Cyflwyniad gan y Pennaeth Marchnata

Rhoddodd y Pennaeth Marchnata gyflwyniad ar y Cynllun Marchnata ar gyfer 2002. Byddai'r Adran yn talu sylw i dri prif beth, sef: brand S4C, yr Amserlen newydd, a rhaglenni unigol. O ran strategaeth byddai'r Adran yn: datblygu llyfr cyfeiriadau technegol; cyfres o ymgyrchoedd; hybu'r portffolio o raglenni; cynnal lansiadau; codi ymwybyddiaeth o S4C Digidol; datblygu'r polisi elusen; ail-lansio Sgrîn; a datblygu brand Planed Plant. Yn ogystal, ag edrych ymlaen at y flwyddyn i ddod, edrychwyd yn ôl at yr hyn a gyflawnwyd gan yr Adran yn 2001 ac yn benodol dangoswyd tâp o'r hyrwyddiadau ar y sgrîn.

Diolchodd yr Aelodau i'r Pennaeth Marchnata am gyflwyniad diddorol iawn ac fe wnaethant holi nifer o gwestiynau yn deillio ohono, yn bennaf yn ymwneud â chylchgrawn Sgrîn; y logos, teitlau a cherddoriaeth ar gyfer rhaglenni; a hyrwyddo ar y sgrîn.

Materion Er Gwybodaeth

Hefyd trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad ar y Gwasanaeth Rhaglenni
- Adroddiad Ariannol
- Adroddiad y Prif Weithredwr – Materion er gwybodaeth
- Adroddiad Cwynion
- Cofnodion cyfarfod y Grwp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd ar 10 Ionawr 2002
- Adroddiad y Wifren Gwylwyr
- Adroddiad Ymchwil – Perfformiad y gwasanaeth yn erbyn targedau
- Adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol